# Fy myd byd-eang

| | |
|---|---|
| **Cefndir** | Nod y gweithgareddau hyn yw datblygu sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth ddaearyddol y dysgwyr drwy gynnig cyfleoedd i astudio'r byd byd-eang ac ymchwilio iddo. |
| **Nod** | Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth ddaearyddol y dysgwyr o'u byd byd-eang drwy ymchwil ddaearyddol. |
| **Cynnwys** | 5/6 o weithgareddau |
| **Amseru** | 1 tymor |
| **Oedran targed** | Blynyddoedd 3 i 6 |
| **Cysylltiadau'r LNF** | wedi'u rhestru ar gyfer y gweithgareddau penodol drwy ddefnyddio codau llwybrau sgiliau'r fframwaith. |

## Gweithgaredd pellach

# Lluniwch lyfr (e-lyfr) i blant bach ynghylch gwlad.

*Defnyddiwch y templed yma i'ch helpu i gynllunio'ch e-lyfr*




Chwiliwch am ffotograffau i'ch llyfr ac ysgrifennwch gapsiynau iddyn nhw.

Gallwch ddefnyddio ap fel 'Popplet' a 'Book Creator' i'ch helpu i gynllunio ac ysgrifennu'ch llyfr.

## Gweithgaredd pellach


# Edrych ar ffotograffau!

Defnyddiwch y templed yma i'ch helpu i edrych ar ffotograffau.

**Templed 1:** Gweld, Meddwl, Dychmygu

| Beth welwch chi? | Am beth rydych chi'n meddwl | Beth rydych chi'n ei ddychmygu wrth weld y llun? |
|---|---|---|
| | | |

**Templed 2:** Diagram Venn



Gweithgaredd pellach

# Penderfyniadau! Penderfyniadau! Penderfyniadau!

**Defnyddiwch y templedi sy'n dilyn i'ch helpu i drafod a phenderfynu.**

Templed 1

| Dadleuon yn erbyn... | Dadleuon o blaid... |
|---|---|
| | |

Templed 2

| Y pwyntiau CADARNHAOL (da) ynghylch ... | Y pwyntiau NEGYDDOL (drwg) ynghylch ... | Pwyntiau DIDDOROL ynghylch ... |
|---|---|---|
| | | |

## Meini prawf ar gyfer llwyddiant: Rwy'n GALLU ysgrifennu llythyr ffurfiol

| | |
|---|---|
| Defnyddiais gwestiwn ar gyfer y teitl. | |
| Mae fy nghyflwyniad i'n esbonio testun y ddadl. | |
| Rhoddais osodiadau o blaid ac yn erbyn, gyda rhesymau i'w hategu. | |
| Mae fy mharagraff olaf yn crynhoi ac o bosibl yn cynnig awgrymiadau. | |
| Defnyddiais o leiaf dair enghraifft o iaith trafodaeth, e.e. 'does neb yn gallu gwadu', 'mae rhai pobl yn credu'. | |
| • Defnyddiais ferfau:<br>• yn yr amser presennol yn bennaf<br>• gan gynnwys enghreifftiau o'r amhersonol<br>• gan gynnwys ymadroddion amodol, e.e. 'byddai', 'gallai'. | |
| • Defnyddiais ragenwau priodol, gan gynnwys rhagenwau personol yn y paragraff olaf | |
| • Defnyddiais gysyllteiriau sydd:<br>• yn cyflwyno rhagor o bwyntiau: 'ar ben hynny', 'yn ychwanegol'<br>• yn rhoi barn gytbwys: 'ond', 'er hynny'<br>• yn tynnu casgliad: 'o ganlyniad', 'felly'. | |

Gweithgaredd pellach

# Beth sy'n digwydd yn y NEWYDDION?

Defnyddiwch y templed yma i'ch helpu i gofnodi'ch canfyddiadau ynghylch yr hyn sy'n digwydd yn y newyddion yn y wlad rydych chi wedi'i dewis.

| |
|---|
| Rhowch *lun/erthygl/pennawd papur newydd* yma |

**Beth** yw'r stori?

**Pryd** digwyddodd hyn?

Ar **bwy** mae'n effeithio?

**Ble** digwyddodd hyn?

**Pam** digwyddodd hyn?

**Sut** rydw i (a phobl eraill) yn teimlo?

Defnyddiwch y MEINI PRAWF AR GYFER LLWYDDIANT i'ch helpu i ysgrifennu adroddiad PAPUR NEWYDD.

**Meini prawf ar gyfer llwyddiant: Rwy'n GALLU ysgrifennu fel newyddiadurwr**

| | |
|---|---|
| Mae gan fy erthygl i bennawd byr, effeithiol. | |
| Mae fy mharagraff cyntaf yn llawn gwybodaeth. | |
| Mae'n rhoi delwedd gadarn ac yn bachu'r darllenydd. | |
| Mae dechrau fy erthygl yn ateb y cwestiynau Pwy? Beth? Ble? a Pryd? | |
| Mae fy erthygl i wedi'i threfnu'n nifer o baragraffau. | |
| Rwyf wedi cynnwys dyfyniadau gan sawl person. | |
| Wrth i'r erthygl fynd yn ei blaen, mae'r manylion yn mynd yn llai pwysig | |